**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

11 Hydref 2016

Annwyl Weinidog

**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y cyn-Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Trafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn a chadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o'i Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys rôl ac effaith Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'n fawr y diweddaraf ar hynt y gwaith ers cyhoeddi'r adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau ers cwblhau'r gwerthusiad, a'ch ymateb maes o law i'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru yn adroddiad diweddar Estyn ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565